

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Crown, Llantarnam i
Gylchfan Edlogan Way,
Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2018

The A4042 Trunk Road (Crown
Roundabout, Llantarnam to
Edlogan Way Roundabout,
Croesyceiliog, Torfaen)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018

Gwnaed 8 Mawrth 2018

Made 8 March 2018

Yn dod i rym 13 Mawrth 2018

Coming into force 13 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i'r Amwythig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the relevant length of the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Crown, Llantarnam i Gylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 13 Mawrth 2018.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Crown Roundabout, Llantarnam to Edlogan Way Roundabout, Croesyceiliog, Torfaen) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 13 March 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 13 Mawrth 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i’r Amwythig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd rhwng Llantarnam a Chroesyceiliog ym Mwrdeistref Sirol Torfaen sy’n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i’r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Crown hyd at bwynt 42 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Edlogan Way, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Turnpike.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Mawrth 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 20:00 hours on 13 March 2018 and ending when the temporary traffic signs have been permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road between Llantarnam and Croesyceiliog in the County Borough of Torfaen that extends from a point 44 metres north of the centre-point of Crown Roundabout to a point 42 metres south-east of the centre-point of Edlogan Way Roundabout, including the circulatory carriageway of Turnpike Roundabout.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

8 March 2018

Nina Ley

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042
(CYLCHFAN CROWN, LLANTARNAM I
GYLCHFAN EDLOGAN WAY,
CROESYCEILIOG, TORFAEN) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Crown, Llantarnam a Chylchfan Edlogan Way, Croesyceiliog, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Crown hyd at bwynt 42 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Edlogan Way, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Turnpike.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd tua'r gogledd yw ar hyd Cwmbran Drive yr A4051 tua'r gorllewin ac yna tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch i ailymuno â'r A4042 wrth Gylchfan Cwmbrân: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Bydd mynediad ar gyfer traffig lleol ar gael ar hyd yr A4042 hyd at y manau cau, a bydd mynediad ar gael hefyd i'r eiddo gyferbyn â'r A4042 tua'r de rhwng Cylchfannau Edlogan Way a Turnpike.

Bydd gwyradau lleol ar waith ar gyfer Turnpike Road a Caerleon Road.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) o 13 – 15 Mawrth 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**THE A4042 TRUNK ROAD (CROWN
ROUNDAABOUT, LLANTARNAM TO
EDLOGAN WAY ROUNDAABOUT,
CROESYCEILIOG, TORFAEN) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Crown Roundabout, Llantarnam and Edlogan Way Roundabout, Croesyceiliog, Torfaen.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A4042 trunk road that extends from a point 44 metres north of the centre-point of Crown Roundabout to a point 42 metres south-east of the centre-point of Edlogan Way Roundabout, including the circulatory carriageway of Turnpike Roundabout.

The alternative route for northbound through traffic is via the westbound then northbound A4051 Cwmbran Drive from Croes-y-Mwyalch Roundabout to rejoin the A4042 at Cwmbran Roundabout: vice versa for southbound traffic.

Access for local traffic will be maintained along the A4042 up to the points of closure and access to properties adjacent to the southbound A4042 between Edlogan Way and Turnpike Roundabouts will also be maintained.

Local diversions will be in place for Turnpike Road and Caerleon Road.

The prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 13 – 15 March 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government